



Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol
ac Economaidd a Data Cymru
Wales Institute of Social and
Economic Research and Data

INSIGHT

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021



Adroddiad y Cyfarwyddwr



Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn hynod o anodd i bawb. Mae sefydliad WISERD wedi wynebu sawl her gan ei fod wedi gorfod newid ei ffyrdd o weithio ac ailgyfeirio ei raglen ymchwil i fynd i'r afael â'r sawl argyfwng sydd wedi codi yn sgîl pandemig y coronafeirws. Yn y tudalennau hyn, rydym yn dangos sut mae WISERD wedi goresgyn yr heriau hyn ac wedi cryfhau ei safle fel canolfan ymchwil genedlaethol bwysig gyda chyrhaeddiad cynyddol fyd-eang.

Ar ddechrau 2020, gwnaethom ddechrau ein partneriaeth newydd gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dulliau Ymchwil (NCRM) wrth iddi ddechrau ar gyfnod newydd, [pum mlynedd o waith i gynyddu gallu dulliau ymchwil yn y gwyddorau cymdeithasol a thu hwnt](#). Penodwyd cyd-gyfarwyddwr WISERD, yr Athro Gary Higgs, o Brifysgol De Cymru, yn Uwch-gymrawd NCRM, ac mae'n arwain rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi WISERD fel rhan o'r cydweithio hwn.

Hefyd ym mis Ionawr, daethom yn bartneriaid yng [Nghanolfan ProPEL](#) sydd newydd ei sefydlu (Deilliannau Cynhyrchedd Ymarfer, Ymgysylltu a Dysgu yn y Gweithle (ProPEL)). Mae ProPEL yn fenter newydd o bwys a ddyluniwyd i gefnogi gwelliannau mewn cynhyrchiant drwy arferion gwell yn y gweithle ac ymgysylltu â gweithwyr.

Ym mis Chwefror 2020, ychydig cyn i'r pandemig wneud y mathau hyn o ddigwyddiadau'n amhosibl, gwnaethom lansio Canolfan Cymdeithas Sifil newydd a ariennir gan ESRC ym Mae Caerdydd, gyda'r digwyddiad i randdeiliaid, [Dathlu Ymchwil Cymdeithas Sifil: Pennod Newydd](#). Rydym yn ddiolchgar i Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru a'r Athro Alison Park, Cyfarwyddwr Ymchwil yn y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) am siarad yn y digwyddiad. Lansiodd hyn raglen waith bum mlynedd newydd, a thrwy'r flwyddyn rydym wedi croesawu ymchwilwyr newydd sydd wedi ymuno â ni i gynnal ymchwil ar lu o brosiectau newydd.

Gwnaethom lansio Canolfan Cymdeithas Sifil newydd yn ffurfiol ym Mhrifysgol Bangor yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ond roedd yn rhaid i ni wneud hynny'n rhithiol. Ychydig cyn i'r cyfyngiadau symud ddod i rym, cyflwynodd Mark Drakeford Ddarlith Flynyddol Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru WISERD: [Ar ôl Brexit – beth nesaf i Gymru?](#) ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Wrth i'r pandemig ddatblygu, symudodd portfolio digwyddiadau a lledaenu gwybodaeth WISERD ar-lein,

gan gynnwys cyfres seminarau wythnosol WISERD, a oedd yn caniatáu i ni agor y digwyddiadau hyn i gynulleidfau lawer ehangach. Roeddem yn gallu clywed gan ein hymchwilwyr ein hunain a gwahodd siaradwyr o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), Sefydliad Bevan ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.

Ym mis Gorffennaf, roeddem yn falch iawn o groesawu'r Athro Jonathan Portes i draddodi darlith ar-lein, [Covid-19 a Brexit: beth nesaf i economi'r DU?](#) Roedd Jonathan i fod yn brif siaradwr yn ein cynhadledd flynyddol, yr oedd yn rhaid ei chanslo yn anffodus. Roeddem yn falch iawn ein bod yn dal i allu ei groesawu i WISERD a bod nifer fwy o bobl yn gallu ei glywed yn siarad.

Mae llwyddiant WISERD yn dyst i'r ffordd mae'n cydweithio â phrifysgolion ac elusennau ledled Cymru, Ewrop, a'r byd. Ni fu ffeithiau erioed yn bwysicach, a bydd meddu ar ganolbwynt gwybodaeth o'r radd flaenaf fydd yn ein cynorthwyo ni yn y Llywodraeth i wneud y penderfyniadau cywir yn ein helpu i greu Cymru well i ninnau ac i genedlaethau'r dyfodol.

Mark Drakeford,
Prif Weinidog Cymru, yn nigwyddiad Dathlu Ymchwil Cymdeithas Sifil: Pennod Newydd (yn y llun isod)



Mae WISERD yn gartref i Ganolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD, buddsoddiad mawr gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC).



Economic and Social Research Council

Mae **Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD)** yn sefydliad ymchwil gwyddorau cymdeithasol rhyngddisgyblaethol cenedlaethol.

Rydym wedi ein dynodi'n ganolfan ymchwil genedlaethol gan **Lywodraeth Cymru**. Gan ddefnyddio dulliau arloesol, mae ein hymchwil yn cwmpasu economeg, cymdeithaseg, daearyddiaeth a gwyddoniaeth wleidyddol.

Rydym yn fenter ar y cyd rhwng prifysgolion **Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe** – ac yn cydweithio i wella safon a maint ymchwil y gwyddorau cymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt.

Mae ein gwaith ymchwil yn ysgogi newid drwy ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau ac arferion ar draws ystod o sectorau.

Ym **Mhrifysgol Aberystwyth**, mae **WISERD** yn cynnwys **Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru**.

Mae **WISERD** hefyd yn gartref i **ADR Cymru (Ymchwil Data Gweinyddol Cymru)** – cydweithrediad rhwng **Llywodraeth Cymru, Ysgol Meddygaeth Prifysgol Abertawe a WISERD ym Mhrifysgol Caerdydd**. Mae **ADR Cymru** yn rhan o **ADR y DU (Ymchwil Data Gweinyddol y DU)** a ariennir gan yr ESRC.

Data am gyhoeddiadau WISERD ar dudalennau 10 ac 11 a ddarperir gan Elsevier: www.elsevier.com.



Siaradodd cydweithwyr WISERD mewn digwyddiadau ar-lein eraill hefyd. Cyflwynodd yr Athro Jean Jenkins (Prifysgol Caerdydd) [ganfyddiadau rhagarweiniol](#) y prosiect 'Gweithredoli Hawliau Llafur' (OLR) i Bartneriaeth Tecstilau Cynaliadwy'r Almaen ym mis Ebrill 2020. Cyflwynodd yr Athro Scott Orford (Prifysgol Caerdydd hefyd), y wefan [Deall Lleoedd Cymru](#) yn yr Ŵyl Deall Lleoedd Cymru, lle bu hefyd yn cynnal clinig cynllunio a data. Rhoddodd yr Athro Michael Woods (Prifysgol Aberystwyth) brif gyflwyniad ar 'Cymunedau'r Ucheldir yng Nghymru: y tu hwnt i Brexit, Covid-19 ac wynebu'r Newid yn yr Hinsawdd' yng nghynhadledd ar-lein Llwyfan Amgylcheddol Cymru 'Tystiolaeth Amgylcheddol 2020: Gwydnwch yn Ucheldir Cymru'. Ym mis Rhagfyr, cyflwynodd cydweithwyr o Abertawe (Dr Samuel Mann, Dr Nigel O'Leary a'r Athro David Blackaby) ganfyddiadau ar 'Hunaniaeth Rywiol, Arwahanu Diwydiannol, ac Enillion' ym Mhwyllgor Cymdeithas Economaidd America ar Statws Unigolion LGBTQ+ yn y Proffesiwn Economeg.

Ym mis Medi, cynhaliodd WISERD gyfres dros dridiau o [ddigwyddiadau agored, ar-lein ar yr Economi Sylfaenol](#). Daeth y rhain ag ysgolheigion rhyngwladol, gwleidyddion, llunwyr polisi ac ymarferwyr at ei gilydd i drafod datblygiadau allweddol yn yr Economi Sylfaenol ac ymatebion i'r pandemig a oedd yn canolbwyntio ar adnewyddu'r gymdeithas a'r economi ar lefelau lleol a rhanbarthol.

Symudodd yr Eisteddfod ar-lein yr haf hwn hefyd a chyfrannodd ymchwilwyr WISERD o Brifysgol Aberystwyth at baneli Eisteddfod AmGen ar 'Symudiadau Gwleidyddol Cenedlaethol a Rhanbarthol', 'Pobl Ifanc a Gwleidyddiaeth Cymru' a 'Datblygiad Economaidd ac Iaith'.

Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, ail-ganolbwyntiodd ymchwilwyr WISERD eu hymchwyl i fynd i'r afael â'r argyfwng presennol. Archwiliodd ein [Lab Data Addysg WISERD](#) newydd ystod o themâu sy'n berthnasol i lunwyr polisi a'r sector addysg ehangach. Cafodd arian gan Swyddfa Llywodraeth Cymru dros Wyddoniaeth (Sêr Cymru) a Phrifysgol Caerdydd i edrych ar sut y cyflwynwyd dysgu digidol ledled Cymru mewn ymateb i'r pandemig.

Mae'r Athro Alan Felstead (Prifysgol Caerdydd) wedi ysgrifennu [dau adroddiad WISERD ar waith cartref yn ystod y pandemig](#). Mae wedi cyfrannu at lawer o flogiau fel rhan o'r prosiect PROPEL ac mae [ei ymchwyl ar weithio](#)

[gartref](#) wedi cyrraedd y penawdau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae ei fideo diweddar 'Gweithio o bell: Cynnal Cynhyrchiant', wedi ymddangos fel rhan o gyfres [gweminarau CIPD ar y coronafeirws](#), ac yn ddiweddar fe'i gwahoddwyd i roi tystiolaeth i ymchwiliad gan y Senedd.

Yn yr haf, cynhyrchodd Dr Jennifer May Hampton (Prifysgol Caerdydd) [gyfres o flogiau](#) gan ddefnyddio data arolwg o'r astudiaeth ryngwladol o les plant, Bydoedd Plant, a Lab Data Addysg WISERD. Archwiliodd y rhain effaith y pandemig ar ganlyniadau Safon Uwch a TGAU; lefelau lles plant ysgol yng Nghymru; ac anghydraddoldebau dysgu ac addysgol yn y cartref. Mae'r canfyddiadau hyn wedi helpu Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddeall mwy am sut mae plant yng Nghymru wedi bod yn dysgu gartref, eu profiad o'r cyfyngiadau symud a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar eu haddysg a'u lles.

At hynny, cyhoeddwyd rhai erthyglau ymchwyl a monograffau pwysig gan WISERD yn 2020. Er enghraifft, yn dilyn digwyddiad llwyddiannus yn 2019 yn Neuadd y Ddinas Caerdydd, ac ar y cyd â Dr Victoria Winckler o Sefydliad Bevan, gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar y pwnc [Cynnwyd a Chwmp Melinau Trafod yng Nghymru](#). Yng ngwanwyn 2020, cyhoeddwyd rhifyn arbennig o'r [Curriculum Journal](#) yn ddwyieithog yn cynnwys papurau ymchwyl o raglen ymchwyl [Dyfodol Llwyddiannus i Bawb?](#) WISERD, a ariennir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at faterion yn natblygiad newydd cwrwclwm ysgol Cymru.

Ym mis Tachwedd, gwnaethom ddathlu **lansiad ein cyfres o lyfrau y Gymdeithas Sifil gyda Policy Press**. Mae'r gyfres newydd hon yn darparu safbwyntiau cymharol a rhyngddisgyblaethol ar natur cymdeithas sifil sy'n newid yn gyflym ar raddfeydd lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang. Mae'r pedwar llyfr cyntaf yn adrodd ar ganfyddiadau ymchwyl ar draws ein Canolfan Ymchwyl Cymdeithas Sifil flaenorol ESRC ac mae cydweithwyr ar hyn o bryd yn gweithio ar gyfrolau ar gyfer y dyfodol.

Mewn ymateb i faterion a godwyd gan yr ymgyrch. Mae Bywydau Du o Bwys, cynhyrchodd WISERD drosolwg o'n gwaith yn y maes hwn – [Ymchwyl WISERD ar Hil ac Ethnigrwydd](#). Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn llywio ymchwyl yn y dyfodol ar anghydraddoldebau. Yn ogystal â lledaenu ein hymchwyl, mae cydweithwyr WISERD



wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid a llunwyr polisi allweddol i gynyddu effaith gwaith a meithrin polisiâu ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn wedi cynnwys cyfres o seondiadau a lleoliadau. Er enghraifft, cwblhaodd Dr Mitchel Langford, o Brifysgol De Cymru, brosiect Cynllun Cymrodoriaeth Academaidd Ymchwyl y Senedd a oedd yn edrych ar fynediad at wasanaethau bancio yng Nghymru – 'Archwilio patrymau daearyddol yn nhirwedd newidiol darpariaeth gwasanaethau ariannol yng Nghymru'. Cyflwynir canfyddiadau'r gwaith ymchwyl hwn i'r Senedd yn 2021.

Yn ein Canolfan Cymdeithas Sifil ESRC newydd, mae'r Athro Paul Chaney (Prifysgol Caerdydd) wedi bod yn ymchwilio i'r materion sy'n wynebu darparwyr gofal cymdeithasol oedolion y trydydd sector cyn ac yn ystod pandemig COVID-19, ac mae wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru.

Trefnodd cydweithwyr o Aberystwyth, Dr Elin Royle, Dr Huw Lewis a Dr Rhys Jones, seminar briff ymchwyl ar gyfer yr Uned Ymchwyl a Pholisi yn Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Adroddodd hyn ar ymchwyl gan ein Canolfan Cymdeithas Sifil flaenorol ESRC a'r prosiect [Revitalise](#).

Daw'r prosiect ymchwyl Ewropeaidd, [ROBUST](#), a ymchwiliodd i ryngweithio rhwng ardaloedd gwledig a threfol a sut y gellir eu rheoli'n fwy effeithiol, i ben ym mis Mehefin 2021. I ddilyn o'r gwaith hwn, mae'r Athro Michael Woods, Dr Jesse Heley a Dr Bryonny Goodwin-Hawkins (pob un o Aberystwyth) wedi bod yn gweithio

gyda Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu Gweledigaeth Wledig i Gymru a fydd yn rhoi map ffordd ar gyfer adfer ar ôl-COVID a pholisi gwledig ôl-Brexit. Lansiwyd y weledigaeth ym mis Ionawr i lywio manifestos pleidiau yn etholiadau Senedd 2021 a pholisiâu Llywodraeth newydd Cymru.

Ym mis Rhagfyr, lansiodd WISERD becyn cymorth ar gyfer llywodraethwyr ysgolion yng Nghymru – [Adnodd Myfyrdodau Llywodraethwyr Ysgolion](#). Gyda chefnogaeth gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Phrifysgol Caerdydd, gallai'r adnodd hwn helpu llywodraethwyr ysgolion i gyflawni eu rôl yn fwy effeithiol. Gofynnwyd i'r Athro David Blackaby (Prifysgol Abertawe) ymuno â Fforwm Cynhyrchiant Cymru fel rhan o Sefydliad Cynhyrchiant UKRI a ariennir gan ESRC, ac mae wedi'i gomisiynu gan y Swyddfa Economeg Gweithwyr i gynnal gwaith ymchwyl ar y bwlch cyflog ethnig yn y sector cyhoeddus, canfyddiadau a fydd yn hysbysu Cyrff Adolygu Cyflogau'r sector cyhoeddus yn uniongyrchol.

Rwy'n gobeithio bod yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar sut mae ein hymchwyl a'n gweithgarwch wedi ymateb i'r nifer o newidiadau yn ein cymdeithas yn ystod 2020 ac y byddwch yn parhau i ddilyn ac ymgysylltu â'n gwaith dros y flwyddyn i ddod – a fydd, gobeithio, yn llai o straen.

Sally Power
Cyfarwyddwr WISERD

Data cyllid ymchwil

Yn ystod 2020, gwnaeth WISERD gais am **37 o grantiau ymchwil** ar draws pob un o'r pum prifysgol bartner. Roedd hefyd yn rhan o geisiadau ymchwil, gan gynnwys y rhai hynny a arweiniwyd gan sefydliadau eraill, gwerth hyd at **£33.3M**.

£955K oedd cyfanswm y grantiau ymchwil a gafodd WISERD yn 2020.

Cyllid newydd yn 2020




Mae gan WISERD hanes rhagorol o ennill cyllid ymchwil cystadleuol. Yn 2020, gwnaethom lwyddo i sicrhau cyllid newydd gan ystod eang o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.




Ymchwil bresennol WISERD

Roedd gwerth ymchwil barhaus WISERD yn 2020 yn **£14.1m** ar draws **27 o grantiau ymchwil**.



Grantiau ymchwil a gafwyd rhwng 2010-20

Ers 2010, mae WISERD wedi cyflwyno **301 o geisiadau ariannu ymchwil** ar draws prifysgolion partner WISERD, gyda **chyfradd lwyddo o 56%**. Cyfanswm y grantiau ymchwil a gafwyd gan WISERD ers 2009 yw **£36.38m**.



Cysylltiadau rhyngwladol

Mae WISERD yn falch o fod wedi sefydlu llawer o gysylltiadau rhyngwladol, trwy waith maes, digwyddiadau ac ymchwil ar y cyd, croesawu academyddion gwadd a mynd i gynadleddau dramor. Mae rhai o'r rhain wedi'u hamlygu isod.

Iwerddon

Ar y cyd â Phrifysgol Genedlaethol Iwerddon Galway, enillodd WISERD gyllid gan ESRC ar gyfer rhwydwaith newydd 'Y Gymdeithas Sifil mewn Cyfnodau Cythryblus: Archwilio Cysylltiadau, Cymharu a Meithrin Gallu yng Nghymru ac Iwerddon'.

Cymru

Cynhaliodd ymchwilwyr WISERD arolwg o les plant yng Nghymru. Dyma'r tro cyntaf i Gymru ymwneud â Bydoedd Plant, sef astudiaeth ryngwladol o les plant a arolygodd 128,000 o blant ar draws 35 gwlad rhwng 2016 a 2019.

India

Mae prosiect Cronfa Ymchwil Heriau Byd-eang ESRC yr Athro Jean Jenkins (GCRF) – 'Gweithredoli Hawliau Llafur: Mynediad i Ddatrysiaid yn y Gweithle' wedi cyflwyno hyfforddiant i feithrin gallu gyda chydweithwyr yn India.

UDA

Dechreuodd Dr Robin Mann waith ar y cyd â Phrifysgol Michigan Tech i ddatblygu ymchwil ar y cyd ar gymunedau a threftadaeth ôl-ddiwydiannol, gan ganolbwyntio ar ddiwydiannau llechi.

Bangladesh


Ymchwil newydd gan WISERD. Mae'r cyd-gyfarwyddwr, yr Athro Paul Chaney, Dr Sarbeswar Sahoo (Sefydliad Technoleg India, Delhi) a Dr Seuty Sabur (Prifysgol BRAC, Dhaka) yn dadansoddi safbwyntiau sefydliadau cymdeithas sifil ar y sefyllfa bresennol sy'n wynebu pobl LGBT+ yn Bangladesh.

Yr Eidal

Siaradodd Fabrizio Barca, cydlynnydd Forum Disuguaglianze e Diversità, yng nghyfres digwyddiadau ar-lein Economi Sylfaenol WISERD. Mae Fabrizio yn gyn-weinidog gwladol yr Eidal heb bortffolio ar gyfer cydlyniant tiriogaethol.

Awstralia

Cydweithiodd ymchwilwyr WISERD yn Abertawe ag Ian Li (Prifysgol Gorllewin Awstralia) ar ei brosiect ymchwil 'Y Berthynas rhwng Rhagfarn tuag at Leiafrifoedd Rhywiol a Chyfranogiad Gwleidyddol Lleafrifoedd Rhywiol yn Awstralia'.



Cyhoeddiadau

Mae WISERD yn cynhyrchu amrywiaeth o gyhoeddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd academiaidd, polisi ac ymarferwyr, gan gynnwys cylchlythyrau a blogiau.

Yn 2020, cyhoeddodd WISERD **dros 60** o gyhoeddiadau academiaidd, gan gynnwys:

Erthyglau mewn cyfnodolion	39
Llyfrau a phenodau mewn llyfrau	12
Adroddiadau a briffiau	11
Arall	6

Yn 2020, cyhoeddodd WISERD **41** o flogiau.

Gallwch ddarllen y rhain ar ein gwefan: www.wiserd.ac.uk/blogs.

Ers 2008, mae WISERD wedi cyhoeddi **dros 750** o gyhoeddiadau academiaidd, gan gynnwys:

Erthyglau mewn cyfnodolion	500+
Llyfrau a phenodau mewn llyfrau	136
Adroddiadau a briffiau	137

Erthyglau mewn cyfnodolion a gyhoeddwyd yn 2020

17.1%

Allbynnau yn y canraddau dyfynnu uchaf
Cyhoeddiadau yn y 10% o gyfnodolion a ddyfynnir fwyaf yn fyd-eang

15.7%


Cydweithio rhyngwladol
Cyhoeddiadau a ysgrifennwyd ar y cyd â sefydliadau mewn gwledydd eraill

38.4%

Cyhoeddiadau yn y canraddau cyfnodolion uchaf
Cyhoeddiadau yn y 10% uchaf o gyfnodolion yn ôl Canradd CiteScore

© 2020 Elsevier B.V. Cedwir pob hawl. Mae SciVal, RELX Group a'r symbol RE yn nodau masnach i RELX Intellectual Properties SA, a ddefnyddir o dan drwydded.


Roedd erthyglau WISERD mewn cyfnodolion rhwng 2015 a 2020 yn ymdrin ag ystod o feysydd pwnc:



Y Gymdeithas Sifil a Newid Cymdeithasol


Lansiwyd cyfres lyfrau WISERD newydd gan Policy Press ym mis Hydref 2020. Golygyddion y gyfres yw'r Athro Ian Rees Jones a'r Athro Paul Chaney, Prifysgol Caerdydd a'r Athro Mike Woods, Prifysgol Aberystwyth. Bydd y gyfres yn cynnwys set graidd o gyfrolau wedi'u golygu yn adrodd am ganfyddiadau ymchwil o bob rhan o Ganolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD a ariennir gan ESRC, a gynhaliwyd rhwng 2014 a 2019. Bydd teitlau dethol yn y gyfres ar gael gyda mynediad agored.

Mae'r teitlau canlynol ar gael nawr:




Yr Economi Sylfaenol a Dinasyddiaeth

Golygwyd gan Ian Rees Jones a Filippo Barbera




Civil Society and the Family

Esther Muddiman, Sally Power a Chris Taylor



Putting Civil Society in its Place

Bob Jessop



Civil Society through the Life Course

Golygwyd gan Sally Power

Ar hyn o bryd mae ymchwilwyr yn gweithio ar deitlau sydd ar y gweill sy'n cynnwys:

- **City Regions and Devolution in the UK: The Politics of Representation**
Awduron: David Beel, Martin Jones ac Ian Rees Jones
- **Understanding Local Civil Society: Participation, Place and Social Change**
Awduron: Yr Athro Howard Davis, Dr Robin Mann, Dr David Dallimore, Dr Marta Eichsteller, Dr Graham Day
- **Labour, love and welfare: the politics, practices and performances of eligibility**
Awdur: Dr Helen Blakely
- **Trust, Transparency and Multi-Level Governance**
Awduron: Yr Athro Alistair Cole a Dr Ian Stafford

Gweler rhagor o gyhoeddiadau ar ein gwefan: www.wiserd.ac.uk/publications.

Digwyddiadau ac ymgysylltu 2020

A ninnau wedi bod yn gweithio o bell yn 2020, rydym wedi cyflwyno mwy o ddigwyddiadau ar-lein nag erioed o'r blaen. Mae ein digwyddiadau wedi denu cynulleidfaoedd rhyngwladol, wedi codi ein proffil ac wedi ehangu cyrhaeddiad ein blogiau, straeon newyddion a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae llawer o'n blogiau a'n straeon newyddion yn cynnwys canfyddiadau o'n hymchwil ar yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar gymdeithas.

Cyfes digwyddiadau ar-lein yr Economi Sylfaenol, Medi 2020:

[Cyfes dros dridiau o ddigwyddiadau cyhoeddus ar-lein ar yr Economi Sylfaenol.](#) Daeth y digwyddiadau hyn ag ysgolheigion rhyngwladol, gwleidyddion, llunwyr polisi ac ymarferwyr at ei gilydd i drafod datblygiadau allweddol yn yr Economi Sylfaenol. Gwnaethant archwilio ymatebion i'r pandemig a oedd yn canolbwyntio ar adnewyddu cymdeithasol ac economaidd ar lefelau lleol a rhanbarthol. Roedd y trafodaethau'n amrywio o rôl yr Economi Sylfaenol wrth adeiladu cynaliadwydd cymdeithasol-ecolegol i'w gyfraniad posibl at gyfiawnder cymdeithasol a lles. Denodd y gyfes dros 150 o bobl o'r DU, Awstria, yr Eidal, Denmarc, Gwlad Belg, Norwy ac UDA.

Mae'r gyfes wedi datblygu rhwydweithiau pellach ledled Ewrop ac wedi ehangu ffwcs meddwl yn sylfaenol ar wahanol sectorau o'r economi a bywyd cymdeithasol. – Yr Athro Ian Rees Jones

Seminar Amser Cinio WISERD

Ers mis Ebrill, mae [cyfes seminarau amser cinio WISERD](#) wedi symud ar-lein. Rydym wedi gwahodd 19 o siaradwyr o WISERD ac amrywiol sefydliadau allanol i drafod amrywiaeth eang o bynciau. Mae recordiadau ar gael ar [wefan WISERD](#).

Lansio cyfes llyfrau y Gymdeithas Sifil

Lansiwyd pedwar llyfr cyntaf cyfes y [Gymdeithas Sifil a Newid Cymdeithasol](#) a gyhoeddwyd gan Policy Press ym mis Tachwedd. Cewch ragor o wybodaeth ar dudalen 11.

Sgwrs ar ddyfodol Cymru, September 2020

[Daeth 250 o bobl i'r digwyddiad a gynhaliwyd ar y cyd rhwng WISERD a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru](#), ac roedd Carwyn Jones AS (cyn Brif Weinidog Cymru), Auriol Miller (Cyfarwyddwr y Sefydliad Materion Cymreig), a Dr Rachel Minto (Canolfan Llywodraethu Cymru, Prifysgol Caerdydd) yn dadansoddi'r taflwybrau a'r blaenoriaethau a fydd yn nodweddu gwleidyddiaeth Cymru a pholisi dros y degawd nesaf.

Hyfforddiant a meithrin gallu

Rydym wedi cyflwyno [5 sesiwn](#) yn 2020:

- Delweddu data a dylunio infograffig x 2
- Beth mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 yn ei fesur a sut y gellir ei ddefnyddio?
- Dulliau Cymysgu: Paradeimau, egwyddorion a materion ymarferol
- Sgiliau cyfweld ansoddol

Sylw gan y cyfryngau

Gellid gwella cynhyrchiant y DU trwy symud yn barhaol i weithio o bell, dengys ymchwil. Cyrhaeddodd y gwaith ymchwil hwn o brosiect ProPEL y penawdau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan gynnwys yn BBC World News, Mail Online, The Guardian, Forbes a Reuters.

Ymchwil Bydoedd Plant

Cafodd data am Gymru o'r arolwg rhyngwladol hwn ar les plant ei drafod gan y Western Mail, South Wales Echo, Nation Cymru, cylchgrawn GOLWG, Play Wales a Wales News Online ym mis Awst a mis Medi 2020.

Cymwysterau ac asesu

Mae Ymchwil Lab Data Addysg WISERD ar sut mae pobl ifanc yn cael eu hasesu i'w gweld yn agenda Cymru (IWA), BBC News Wales a Wales Online.

Bwlch cyrhaeddiad

"Arbenigwyr yn rhybuddio am 'ddifrod hirdymor' i addysg yn sgîl cau ysgolion". Cafodd Cyfarwyddwr Addysg WISERD, Sally Power, ei chyfweld a'i dyfynnu ar ITV Wales News am yr effeithiau tymor hir y gallai mesurau COVID-19 mewn ysgolion eu cael ar ddisgyblion.